**Kirsty Williams AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA(P)/KW/3712/17

Lynne Neagle
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addsyg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NE

23 Hydref 2017

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 28 Medi yn dilyn ystyriaeth y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o’m llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf ynglŷn ag ysgolion bro.

Gofynnoch am eglurhad o’r materion canlynol. Byddaf yn rhoi sylw iddynt yn eu tro:

- A yw Cylchlythyr 34/03 yn dal yn weithredol ac, os felly, pa asesiad sydd wedi'i wneud o ba raddau y mae ein partneriaid cyflenwi yn dilyn y canllawiau?

  *Mae Cylchlythyr 34/03 yn dal i fod yn berthnasol ac fe fydd yn cael ei ddefnyddio pan fyddwn yn gweithredu’r ymrwymiadau a amlinellwyd yn Ffyniant i bawb er mwyn sefydlu canolfannau dysgu cymunedol ac i sicrhau bod ysgolion yn ymgymryd â rôl ehangach fel canolfanau cymunedol.*
  *Fe fydd y canllaw yn ddefnyddiol ar gyfer penaethiaid, cyrff llywodraethu a'r gymuned ehangach.*

- P'un a oedd y diffiniad o ysgolion sy’n canolbwyntio ar y gymuned dal yn berthnasol

  *Mae'r diffiniad hwn yn dal yn briodol. Bydd ysgolion bro yn rhan hanfodol o ganolfannau dysgu cymunedol. Ni fydd y modelau newydd ond yn canolbwyntio ar yr adeilad ond ar ddarparu gwasanaethau; er enghraifft, darparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cefnogaeth i rieni, dysgu fel teuluoedd a mynediad cymunedol i gyfleusterau a adeiledir o gwmpas y diwrnod ysgol.*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Mae'n bwysig bod ysgolion yn cysylltu gyda'r gymuned o'u cwmpas a bod prifathrawon,staff addysgu a’r corff llywodraethu yn chwarae eu rhan i’w gwneud yn bosibl cydweithio er mwyn symud ymlaen.*

- Cynnwys meini prawf penodol o fewn yr amodau ar gyfer cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif a fframwaith arolygu Estyn.

  *Bydd buddsoddi yn seilwaith ein hysgolion a’n colegau trwy'r Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn un o'r ffyrdd fydd yn galluogi datblygiad ein canolfannau cymunedol a’n canolfannau dysgu. Fe fyddwn yn defnyddio’n holl gyllidebau ar draws y maes addysg, yn benodol Ysgolion yr 21ain*

  *Ganrif, i fwrw ymlaen â'r agenda hon.*
  *Bydd mesurau priodol yn cael eu hychwanegu at fframwaith arolygu Estyn lle bo*
  *angen.*

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir

**Kirsty Williams AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**